***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 2

# GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU

## RHAN 2

## AELODAETH

*Aelodau*

2 (1) Mae GCC i gael—

(a) aelod i gadeirio GCC ("yr aelod-gadeirydd"), a

(b) dim mwy na 14 o aelodau eraill.

(2) Gweinidogion Cymru sydd i benodi aelodau GCC.

(3) Ni chaniateir i berson sy'n aelod o staff GCC gael ei benodi'n aelod o GCC ac ni chaiff person o'r fath ddal swydd fel aelod o GCC.

(4) Mae aelodau GCC i ddal swydd ar unrhyw delerau ac amodau y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt; ond mae hyn yn ddarostyngedig i'r darpariaethau eraill yn yr Atodlen hon.

(5) Cyn gwneud penodiad o dan y paragraff hwn, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.

(6) Wrth arfer eu swyddogaethau o dan y paragraff hwn, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i ddymunoldeb penodi aelodaeth amrywiol sydd â mwyafrif o bersonau nad ydynt, ac nad ydynt wedi bod, yn weithwyr gofal cymdeithasol neu'n gynrychiolwyr gweithwyr gofal cymdeithasol.

*Tâl etc. aelodau*

3 (1) Caiff GCC dalu i'w haelodau unrhyw dâl, treuliau a lwfansau y mae Gweinidogion yn penderfynu arnynt.

(2) Mae GCC i dalu, neu wneud darpariaeth ar gyfer talu, unrhyw bensiwn, lwfans neu arian rhodd y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt i berson sy'n aelod o GCC, neu sydd wedi bod yn aelod o GCC, neu mewn cysylltiad â pherson o'r fath.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod amgylchiadau arbennig sy'n ei gwneud yn iawn i berson sy'n peidio â dal swydd fel aelod-gadeirydd GCC gael digolledіad, rhaid i GCC dalu neu wneud darpariaeth ar gyfer talu i'r person unrhyw ddigolledіad y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arno.

*Tymor y swydd*

4 Mae person a benodir yn aelod o GCC yn dal swydd am unrhyw gyfnod y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arno wrth wneud y penodiad; ond ni chaniateir i'r cyfnod hwnnw fod yn hwy na 4 blynedd.

*Ymddiswyddo*

5 (1) Caiff yr aelod-gadeirydd ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.

(2) Caiff ymddiswyddo—

(a) fel aelod-gadeirydd, neu

(b) fel aelod-gadeirydd ac fel aelod.

(3) Caiff aelod o GCC nad yw'n aelod-gadeirydd ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.

*Diswyddo*

6 (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy hysbysiad ysgrifenedig ddiswyddo'r aelod-gadeirydd os ydynt wedi eu bodloni—

(a) ei fod yn anaddas i barhau'n aelod-gadeirydd, neu

(b) nad yw'n gallu gweithredu fel aelod-gadeirydd neu ei fod yn anfodlon gwneud hynny.

(2) Cânt ddiswyddo'r aelod-gadeirydd o'i swydd—

(a) fel aelod-gadeirydd, neu

(b) fel aelod-gadeirydd ac fel aelod.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy hysbysiad ysgrifenedig ddiswyddo aelod o GCC nad yw'n aelod-gadeirydd os ydynt wedi eu bodloni—

(a) ei fod yn anaddas i barhau'n aelod, neu

(b) nad yw'n gallu gweithredu fel aelod neu ei fod yn anfodlon gwneud hynny.